Pecyn dogfennau cyhoeddus

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:
Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd

Dyddiad:
Dydd Llun, 21 Mai 2012

Amser:
14:30

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:

Steve George
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8242
PwyllgorMCD@cymru.gov.uk

Agenda

1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

1. Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3
2.

Offerynnau'r weithdrefn penderfyniad negyddol

Dim

Offerynnau'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol

Dim

3. Offerynnau sy'n cynnwys materion i'w codi gyda'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

Offerynnau'r weithdrefn penderfyniad negyddol

CLA144 - Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) (Diwygio) 2012
(Tudalennau 1 - 16)

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 5 Mai 2012. Fe'u gosodwyd ar 9 Mai 2012. Yn dod i rym ar 1 Mehefin 2012

Offerynnau'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol

CLA142 – Gorchymyn Iechyd Meddwl (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Eilaidd) (Cymru) 2012 (Tudalennau 17 – 34)
Y weithdrefn gadarnhaol. Fe'i gwnaed yn 2012. Ni nodwyd y dyddiad y'i gosodwyd. Yn dod i rym ar 6 Mehefin 2012

CLA143 – Gorchymyn Cadw Mincod (Gwahardd) (Cymru) 2012 (Tudalennau 35 – 42)
Y weithdrefn gadarnhaol. Fe'i gwnaed ar 8 Mai 2012. Fe'i gosodwyd ar 8 Mai 2012. Yn dod i rym ar 1 Mehefin 2012

4. Ymchwiliadau'r Pwyllgor: Ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru

Emyr Lewis, Partner, Cyfreithwyr Morgan Cole; Uwch Gymrawd Cyfraith Cymru, Canolfan Llywodraethiant Cymru, a'r Athro Dan Wincott, Athro Cyfraith a Chymdeithas Blackwell yn Ysgol y Gyfraith Caerdydd; Cyd-gadeirydd Canolfan Llywodraethiant Cymru, Prifysgol Caerdydd (Tudalennau 43 – 50)
Papurau:
CLA(4)-11-12(p1) – WJ 28 – Ymateb gan Mr Emyr Lewis a'r Athro Dan Wincott (Prifysgol Caerdydd)

Yn bresennol:
- Emyr Lewis, Uwch Gymrawd Cyfraith Cymru, Ysgol y Gyfraith Caerdydd
- Yr Athro Dan Wincott, Athro Cyfraith a Chymdeithas Blackwell; Prifysgol Caerdydd

5. Gohebiaeth y Pwyllgor

CLA124 – Rheoliadau Gwastraff a Reolir (Cymru a Lloegr) 2012 (Tudalennau 51 – 54)
Papurau:
CLA(4)-11-12(p2) –Llythyr i'r Cadeirydd gan Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy dyddiedig 26 Ebrill 2012
CLA(4)-11-12(p3) – ymateb y Gweinidog dyddiedig 4 Mai 2012

6. Papur i'w nodi (Tudalennau 55 – 56)

CLA(4)-10-12 – Adroddiad ar y cyfarfod ar 14 Mai 2012

Dyddiad y cyfarfod nesaf
28 Mai 2012

7. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn
Caiff Pwyllgor benderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod neu unrhyw ran o gyfarfod:
(vi) lle mae'r Pwyllgor yn ystyried casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi; neu
(ix) lle mae unrhyw fater sy'n ymwneud â busnes mewnol y Pwyllgor, neu fusnes mewnol y Cynulliad, i gael ei drafod

8. Trafod y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r ymchwiliad hyd yma

9. Ymateb Llywodraeth Cymru i Ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i Bwerau a roddir i Weinidiogion Cymru yng Nghyfreithiau'r DU (Tudalennau 57 - 64)
Papurau:

CLA(4)-11-12(t4) – Ymateb y Prif Weinidog dyddiedig 14 Mai 2012
CLA(4)-11-12(t4) - Atodiad

Trawsgrifiad

Gweler trawsgrifiad o'r cyfarfod.

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

CLA144

Teitl: Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) (Diwygio) 2012

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu a disodli rhai darpariaethau yn Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) 2008 ("y prif Reoliadau") sy'n ymwneud â dynodi parthau perygl nitradau. Mae'r prif Reoliadau yn gweithredu, yng Nghymru, Gyfarwyddeb Cyngor 91/676/EEC ynghylch diogelu dyfroedd rhag llygredd gan nitradau o ffynonellau amaethyddol. Mae'r ddarpariaeth a wneir gan y Rheoliadau hyn yn ymwneud â'r adolygiad gan Weinidogion Cymru o ddynodi parthau perygl nitradau yn 2009 gan y prif Reoliadau. Gwneir darpariaeth gan y Rheoliadau hyn i Asiantaeth yr Amgylchedd wneud argymhellion i Weinidogion Cymru i gyhoeddi a hysbysu eu penderfyniadau yn dilyn yr argymhellion hynny, ac i apeliadau gael eu gwneud i Weinidogion Cymru a'u penderfynu gan unigolyn a benodir ganddynt.

Gweithdrefn: **Negyddol**

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn ar hyn o bryd.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn ar hyn o bryd:-

Mae'r Rheoliadau hyn (yn rheoliad 9(4)) yn dangos newid sylweddol yn arddull drafftio Offerynnau Statudol a wneir gan Weinidogion Cymru. Pan sefydlwyd y Cynulliad Cenedlaethol ym 1999, nodwyd is-baragraffau yn wreiddiol ag (a), (b), (c), (d), (e), ac ati, yn nhestunau Offerynnau Statudol yn y ddwy iaith. Erbyn 2000, cawsant eu nodi ag (a), (b), (c), (ch), (d), ac ati yn y testun Cymraeg gan yr ystyriwyd bod defnyddio'r wyddor Gymraeg yn adlewyrchu statws cyfartal y ddwy iaith yn fwy ffyddlon. Mae'r arfer hwnnw wedi parhau tan nawr. Mae'n golygu, er enghraifft, bod is-baragraff (ch) yn y Gymraeg yn cyfateb i is-baragraff (d) yn y testun Saesneg, tra bod paragraff (d) yn y testun Cymraeg yn cyfateb i (e) yn y Saesneg.

Pan gafodd y Cynulliad y gallu i wneud deddfwriaeth sylfaenol drwy fesurau o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, penderfynwyd dychwelyd at yr arfer gwreiddiol o ddefnyddio'r wyddor Saesneg ar gyfer yr is-baragraffau yn nhestunau'r ddwy iaith. Y prif eglurhad oedd y byddai Aelodau yn rheolaidd yn cynnig a thrafod gwelliannau i Fesurau drafft, a byddai'n llai dryslyd i gyfeirio at baragraffau (y

drydedd lefel israrnnu mewn deddfwriaeth sylfaenol) sydd wedi'u labelu yn yr un ffordd yn nhestunau'r ddwy iaith.

Parhawyd â'r arfer hwnnw gyda Biliau a gyflwynwyd yn ystod y Cynulliad presennol.

Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi penderfynu ymestyn yr arfer hwnnw i Offerynnau Statudol, er na ellir eu diwygio yn yr un modd â Biliau. Er bod hyn yn sicrhau dull cyson ym mhob deddfwriaeth sydd gerbron y Cynulliad ar hyn o bryd, mae'n anghyson â'r arfer gydag Offerynnau Statudol dros y deuddeg mlynedd diwethaf.

Tynnwyd sylw'r Cynulliad i'r mater hwn o dan Reol Sefydlog 21.3(ii), sef ei fod o bwys gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

Cynghorwyr Cyfreithiol
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Mai 2012

Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:

Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) (Diwygio) 2012

Yn unol ag adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, mae Llywodraeth Cymru yn cadarnhau y defnyddir yr wyddor Saesneg i nodi is-baragraffau yn nhestun Cymraeg offerynnau statudol o hyn ymlaen. Y rheswm dros ddefnyddio'r wyddor Saesneg mewn testunau deddfwriaethol Cymraeg yw ein bod yn meddwl ei bod yn llai tebygol y bydd dryswch yn codi mewn achos llys ac yn nhrafodion y Cynulliad, yn enwedig pan fyddir yn cyfeirio at y ddau destun drwy gyfrwng cyfieithu ar y pryd. Y bwriad y tu ôl i'r newid yw hybu defnydd o destunau deddfwriaethol Cymraeg drwy symud rhwystr i ddefnydd effeithiol ohonynt.

Fel y cydnabuwyd yn adroddiad y Pwyllgor, mae'r newid hwn yn sicrhau dull cyson o drin y ffordd y nodir paragraffau ac is-baragraffau ym mhob ddeddfwriaeth ddwyieithog a ddaw gerbron y Cynulliad, gan fod yr arfer a benderfynwyd gan y Llywydd yn ystod y Trydydd Cynulliad yn parhau o ran Biliau. Y bwriad y tu ôl i'r newid yw hybu defnydd o destunau deddfwriaethol Cymraeg drwy symud rhwystr – er yn rhwystr bach - i ddefnydd effeithiol ohonynt.

2012 Rhif 1238 (Cy. 151)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

DŴR, CYMRU

Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) (Diwygio) 2012

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli darpariaethau penodol yn Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) 2008 (O.S. 2008/3143 (Cy.278)) ("y prif Reoliadau") sy'n ymwneud â dynodi parthau perygl nitradau.

Mae'r prif Reoliadau'n gweithredu, yng Nghymru, Gyfarwyddeb y Cyngor 91/676/EEC ynghylch diogelu dyfroedd rhag llygredd gan nitradau o ffynonellau amaethyddol (OJ Rhif L375, 31.12.1991, t.1).

Mae'r ddarpariaeth a wneir gan y Rheoliadau hyn yn ymwneud â'r adolygiad gan Weinidogion Cymru o ddynodi parthau perygl nitradau yn 2009 gan y prif Reoliadau. Mae'r adolygiad yn ofynnol gan reoliad 11 o'r prif Reoliadau.

Gwneir darpariaeth gan y Rheoliadau hyn i Asiantaeth yr Amgylchedd wneud argymhellion i Weinidogion Cymru, bod Gweinidogion Cymru'n cyhoeddi ac yn hysbysu'r penderfyniadau y maent â'u bryd ar eu gwneud yn dilyn yr argymhellion hynny, ac i apelau i gael eu gwneud i Weinidogion Cymru, ac i berson a benodwyd gan Weinidogion Cymru benderfynu arnynt.

Mae rheoliad 2 yn dirymu ac yn disodli rheoliad 2 o'r prif Reoliadau. Mae rheoliad 2, ar ôl yr amnewid, yn penderfynu cymhwysiad y rhannau amrywiol o'r prif Reoliadau yn dilyn yr amnewid (gan reoliad 3 o'r Rheoliadau hyn) o ddarpariaethau o fewn Rhan 2 o'r prif Reoliadau.

Mae rheoliad 3 yn dirymu ac yn disodli rheoliadau 7, 8, 9 a 10 o'r prif Reoliadau.

Mae rheoliad 7 o'r prif Reoliadau, ar ôl yr amnewid, yn parhau â'r dynodiad o'r parthau perygl nitradau a wnaed gan y prif Reoliadau. Mae hefyd yn darparu bod Asiantaeth yr Amgylchedd yn cynorthwyo Gweinidogion Cymru yn eu hadolygiad o'r parthau drwy wneud argymhellion iddynt ynghylch dynodi ardaloedd yn barthau perygl nitradau, bod Gweinidogion Cymru'n cyhoeddi'r argymhellion hynny y mae eu bryd ar eu derbyn (gyda diwygiadau neu hebddynt) ac i gyflwyno hysbysiad i berchenogion a meddianwyr y tir yr effeithir arno.

Mae rheoliad 8 o'r prif Reoliadau, ar ôl yr amnewid, yn disodli'r trefniadau apelio yn Rhan 2 o'r prif Reoliadau (a oedd yn gymwys mewn perthynas â dynodi parthau perygl nitradau yn 2009). Gwneir darpariaeth bod apelau'n cael eu gwneud, ar seiliau penodedig ac o fewn terfyn amser penodedig, gan y personau yr anfonwyd hysbysiad o dan reoliad 7 atynt. Gosodir gofynion o ran ffurf yr apelau. Gwneir darpariaeth i apelau gael eu gwneud i Weinidogion Cymru, ond bod unrhyw apêl a gyflwynir i gael ei hailgyfeirio i berson a benodwyd gan Weinidogion Cymru ar gyfer ei hystyried a phenderfynu arni.

Mae rheoliad 9 o'r prif Reoliadau, ar ôl yr amnewid, yn gwneud darpariaeth ynghylch ystyried apelau gan y person penodedig a phenderfynu arnynt. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth o ran y weithdrefn ar gyfer rhoi sylwadau, cynnal gwrandawiad llafar mewn amgylchiadau eithriadol, tynnu apelau yn ôl, a chostau.

Mae rheoliad 10 o'r prif Reoliadau, ar ôl yr amnewid, yn darparu bod Gweinidogion Cymru wedi eu rhwymo wrth benderfyniad y person penodedig, ac maent i gyhoeddi'r penderfyniadau hynny.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar wneud Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd hi'n anghenrheidiol i wneud asesiad effaith rheoleiddiol o ran costau a manteision tebygol cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

2012 Rhif 1238 (Cy. 151)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

DŴR, CYMRU

Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) (Diwygio) 2012

Gwnaed *5 Mai 2012*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru *9 Mai 2012*

Yn dod i rym *1 Mehefin 2012*

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â diogelu dyfroedd rhag y llygredd a achosir gan nitradau o ffynonellau amaethyddol. Gan arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan yr adran honno, mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) (Diwygio) 2012 a deuant i rym ar 1 Mehefin 2012.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y prif Reoliadau" yw Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) 2008 (**3**).

(**1**) *Gweler* O.S. 2001/2555 am y dynodiad a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn rhinwedd adran 59 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 28(1) o Atodlen 11 iddi, mae'r dynodiad hwnnw wedi ei freinio bellach yng Ngweinidogion Cymru.

(**2**) 1972 p. 68. Diwygiwyd adran 2(2) gan adran 3(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p.7) a Rhan 1 o'r Atodlen iddi, a chan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p.51).

(**3**) O.S. 2008/3143 (Cy.278), a ddiwygiwyd gan O.S. 2010/489 (Cy.55).

Amnewid rheoliad 2

2. Yn lle rheoliad 2 (cymhwyso) o'r prif Reoliadau, rhodder—

"Cymhwyso

2.—(1) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(2) Mae Rhannau 3 i 8 yn gymwys yn unig i ddaliad mewn parth perygl nitradau a ddynodir felly gan y Rheoliadau hyn.

(3) Yn achos daliad sy'n rhannol o fewn parth perygl nitradau a ddynodir felly gan y Rheoliadau hyn, mae Rhannau 3 i 8 yn gymwys yn unig i'r rhan o'r daliad sydd o fewn y parth, ac mae cyfeiriad at ddaliad o fewn Rhannau 3 i 8 yn gyfeiriad at y rhan honno.".

Amnewid rheoliadau 7 i 10

3. Yn lle rheoliadau 7 (dynodi parthau perygl nitradau), 8 (cais am ddatganiad), 9 (achosion cyfreithiol gerbron y person penodedig) a 10 (effaith y canfyddiadau a wneir gan y person penodedig) yn y prif Reoliadau, rhodder—

"Dynodi parthau perygl nitradau

7.—(1) Yn y Rhan hon—

ystyr "daliad perthnasol" (*"relevant holding*") yw tir ynghyd â'i adeiladau cysylltiedig sydd ar gael i'r meddiannydd ac sy'n cael eu defnyddio i dyfu cnydau mewn pridd neu fagu da byw at ddibenion amaethyddol, ac sydd yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn ardal—

(a) y mae'r Asiantaeth yn ei argymell; a

(b) bod Gweinidogion Cymru â'u bryd ar dderbyn (gyda diwygiadau neu hebddynt)

a ddylai gael ei ddynodi yn barth perygl nitradau, neu a ddylai barhau i gael ei ddynodi felly at ddibenion y Rheoliadau hyn;

ystyr "y person penodedig" ("the appointed person") yw'r person a benodwyd gan Weinidogion Cymru.

(2) Mae'r ardaloedd a nodir ar y map o'r enw "Parthau Perygl Nitradau Map Mynegai 2008" ("*Nitrate Vulnerable Zones Index Map 2008"*) ac a adneuwyd yn swyddfeydd Gweinidogion Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ yn cael eu dynodi yn barthau perygl nitradau at ddibenion y Rheoliadau hyn.

(3) Parthau perygl nitradau yw darnau o dir sy'n draenio i ddyfroedd llygredig ac sy'n cyfrannu at lygru'r dyfroedd hynny.

(4) I gynorthwyo Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'u ddyletswyddau o dan reoliad 11(3), rhaid i'r Asiantaeth, ar 1 Mehefin 2012, ac ar yr hwyraf, bob pedair blynedd sy'n dilyn, wneud argymhellion i Weinidogion Cymru, drwy gyfeirio at y materion a grybwyllir yn rheoliad 11(3)(a) i (c), ynghylch pa ardaloedd y dylid eu dynodi'n barthau perygl nitradau neu a ddylai barhau i gael eu dynodi felly at ddibenion y Rheoliadau hyn.

(5) Mae unrhyw argymhellion ynghylch y materion a gaiff eu datgan yn rheoliad 7(4) ac a gafodd eu gwneud gan yr Asiantaeth cyn 1 Mehefin 2012 yn cael effaith fel petaent wedi eu gwneud ar y dyddiad hwnnw.

(6) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r argymhellion hynny a wnaed gan yr Asiantaeth y maent â'u bryd ar eu derbyn (gyda diwygiadau neu hebddynt) ac anfon hysbysiad o'r argymhellion i unrhyw berchennog neu feddiannydd daliad perthnasol.

(7) Rhaid i hysbysiad gynnwys cyfeiriad at dudalen ar wefan a gynhelir gan yr Asiantaeth neu Weinidogion Cymru, lle y mae modd dod o hyd i'r argymhelliad perthnasol (gydag unrhyw ddiwygiad y mae Gweinidogion Cymru â'u bryd ar ei wneud iddo).

Apelau

8.—(1) Caiff perchennog neu feddiannydd daliad perthnasol yr anfonwyd hysbysiad iddo o dan reoliad 7(6) apelio i Weinidogion Cymru yn erbyn yr hysbysiad hwnnw.

(2) Dim ond ar un neu ragor o'r seiliau a nodir ym mharagraff (3) y ceir apelio.

(3) Y seiliau yw bod, mewn perthynas â'r daliad perthnasol neu unrhyw ran ohono, na ddylai Gweinidogion Cymru dderbyn argymhellion yr Asiantaeth (yn ddarostyngedig i unrhyw ddiwygiad y mae Gweinidogion Cymru â'u bryd ar ei wneud iddynt) oherwydd—

(a) nad yw'r daliad perthnasol nac unrhyw ran ohono yn draenio i ddŵr—

(i) y mae Gweinidogion Cymru â'u bryd ar ei ddynodi ei fod yn llygredig neu wedi ei ddynodi felly, neu

(ii) sydd wedi cael ei nodi felly yn Lloegr; neu

(b) bod y daliad perthnasol neu unrhyw ran ohono yn draenio i ddŵr na ddylai Gweinidogion Cymru ddynodi ei fod yn llygredig, neu na ddyllai barhau i gael ei ddynodi felly.

(4) Mae'r apêl i'w seilio ar naill ai—

(a) data a ddarparwyd gan yr apelydd; neu

(b) tystiolaeth a ddarparwyd gan yr apelydd sy'n dangos fod y data y mae Gweinidogion Cymru'n dibynnu arno yn anghywir.

(5) Rhaid i'r apêl—

(a) gael ei gwneud yn ysgrifenedig yn y dull a'r ffurf a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru;

(b) cynnwys manylion yr holl dystiolaeth y mae'r apelydd yn bwriadu dibynnu arni; ac

(c) bod yn nwylo Gweinidogion Cymru ddim hwyrach na 35 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad yr anfonodd Gweinidogion Cymru'r hysbysebiad y mae'r apêl yn ymwneud ag ef.

(6) Rhaid i Weinidogion Cymru ailgyfeirio'r apêl at y person penodedig ar gyfer ei ystyriaeth a'i benderfyniad arni.

Achosion gerbron y person penodedig

9.—(1) Os yw'r person penodedig wedi ei fodloni bod apêl a gyflwynwyd yn cydymffurfio â gofynion rheoliad 8 ym mhob manylyn o bwys, rhaid i'r person penodedig fynd ymlaen i wneud penderfyniad ar yr apêl.

(2) Mae'r weithdrefn ar gyfer gwneud penderfyniad ar yr apêl i'w phennu gan y person penodedig.

(3) Ond mae hynny yn ddarostyngedig i ddarpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(4) Cyn penderfynu ar yr apêl rhaid i'r person penodedig, gan ganiatáu'r cyfnod hwnnw sy'n rhesymol—

(a) gwahodd yr apelydd a Gweinidogion Cymru i gyflwyno sylwadau a dogfennau ategol mewn perthynas â'r apêl;

(b) anfon i Weinidogion Cymru gopi o unrhyw sylwadau a dogfennau ategol a gyflwynwyd gan yr apelydd;

(c) anfon i'r apelydd gopi o unrhyw sylwadau a dogfennau ategol a gyflwynwyd gan Weinidogion Cymru;

(d) rhoi cyfle i'r apelydd a Gweinidogion Cymru gyflwyno sylwadaethau i'r person penodedig ar sylwadau a dogfennau ategol y naill a'r llall.

(5) Caiff y person penodedig, ar unrhyw adeg, ofyn am wybodaeth bellach gan yr apelydd neu gan Weinidogion Cymru.

(6) Caiff y person penodedig wahodd unrhyw berson yr ymddengys bod ganddo fuddiant sylweddol mewn apêl i gyflwyno sylwadau, ond rhaid iddo ganiatáu i'r apelydd a Gweinidogion Cymru gael y cyfle i gyflwyno sylwadaethau ar unrhyw un o'r sylwadau a wnaed.

(7) Caiff y person penodedig anwybyddu unrhyw sylwadau, sylwadaethau neu ddogfennau sydd wedi eu cyflwyno mewn modd nad yw'n unol â'r Rheoliadau hyn.

(8) Os yw'r person penodedig wedi ei fodloni bod amgylchiadau eithriadol yn bodoli, caiff gynnal gwrandawiad llafar.

(9) Mewn gwrandawiad llafar mae gan y apelydd a Gweinidogion Cymru hawl i ymddangos, a chaiff y person penodedig ganiatáu i unrhyw barti arall ymddangos gerbron.

(10) Wrth benderfynu ar yr apêl, rhaid i'r person penodedig anfon copi o'r penderfyniad i bawb a oedd yn barti i'r apêl.

(11) Rhaid i bob un sy'n barti i apêl ddwyn ei gostau ei hun.

(12) Caiff yr apelydd dynnu apêl yn ôl ar unrhyw adeg cyn i'r person penodedig benderfynu arni.

(13) Mae tynnu apêl yn ôl yn effeithiol wrth i'r apelydd roi hysbysiad ysgrifenedig i'r person penodedig.

(14) Os tynnir apêl yn ôl mae'r person penodedig yn peidio â bod o dan ddyletswydd i'w hystyried a phenderfynu arni.

Effaith y penderfyniadau a wneir gan y person penodedig

10.—(1) Mae Gweinidogion Cymru wedi eu rhwymo wrth benderfyniad y person penodedig ar yr apêl.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi penderfyniadau'r apelau gan y person penodedig ar wefan a gynhelir ganddynt.".

John Griffiths

Y Gweinidog Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, un o Weinidogion Cymru

5 Mai 2012

Explanatory Memorandum to The Nitrate Pollution Prevention (Wales) (Amendment) Regulations 2012

This Explanatory Memorandum has been prepared by Department for Environment and Sustainable Development and is laid before the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 27.1.

Minister's Declaration

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of The Nitrate Pollution Prevention (Wales) Regulations 2008

John Griffiths

Minister for Environment and Sustainable Development

5 May 2012

1. Description

The EC Nitrates Directive (91/676/EEC) ("the Nitrates Directive") is intended to reduce water pollution caused by nitrates from agricultural sources and to prevent any further pollution. The Nitrates Directive is transposed in Wales by the Nitrate Pollution Prevention (Wales) Regulations 2008 (as amended) ("the 2008 Regulations")[1].

Since the introduction of the Nitrates Directive in 1991, Member States have been required to assess and designate areas as Nitrate Vulnerable Zones (NVZs) and produce an Action Programme of measures to reduce levels of nitrogen entering watercourses. Member States are required to review their implementation of the Nitrates Directive every four years. The outcome of the review is used to make appropriate amendments to the NVZs and/or the measures in the Nitrates Action Programme. A review is currently underway, and must be completed by the end of 2012.

The 2008 Regulations provide for appeals to be made against proposed designations, but the provisions relate specifically to the 2008 designations process. It is therefore necessary to replace them by making the present Regulations. This will ensure that persons affected by the emerging conclusions of the review will be notified of the Welsh Government's proposals and have an opportunity to appeal against them.

2. Matters of special interest to the Constitutional and Legislative Affairs Committee

Section 3 of this Memorandum explains that these Regulations are made in reliance on section 2(2) of the European Communities Act 1972. By virtue of section 59(3) of the Government of Wales Act 2006, the Welsh Ministers are to determine whether an instrument made in exercise of the section 2(2) powers is to be subject to the negative or affirmative procedure.

These Regulations do not amend an Assembly Act or Measure, or an Act of Parliament, nor do they create offences, impose civil penalties or involve substantial government expenditure. The provision made by them consists of applying, to the current review of NVZ designations, a process for the making and determination of appeals. That process, in its key features, is the same as that provided by the 2008 Regulations, although subject to limited technical amendment and elaboration intended to improve clarity and certainty.

Accordingly, the Welsh Ministers have determined that these Regulations are to be subject to the negative procedure.

[1] S.I 2008/3143 (W.278), amended by S.I. 2010/489 (W.55)

3. Legislative background

Section 2(2) of the European Communities Act 1972 provides that a Minister of the Crown or government department may be designated by Order in Council for the purposes of making provision to implement any EU obligation of the United Kingdom, or dealing any matters arising out of or related to such obligations.

This power to designate was extended to the National Assembly for Wales by Section 29(1) of the Government of Wales Act 1998. The European Communities (Designation) (No.2) Order 2001[2] designated the Assembly for the purpose of section 2(2) in relation to the protection of waters against pollution caused by nitrates from agricultural sources. As this is the subject matter of the Nitrates Directive, it follows that the Assembly was empowered to make any legislation necessary to transpose the Directive. However, the Order authorised the Assembly only to make regulations which applied in relation to Wales.

By virtue of section 59 of, and paragraph 28 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006, the designation of the Assembly now has effect as a designation of the Welsh Ministers. In reliance on this designation, the Welsh Ministers have made the 2008 Regulations and the present Regulations, which, taken together, transpose the Nitrates Directive in relation to Wales.

4. Purpose & intended effect of the legislation

The 1991 Nitrates Directive requires Member States to establish Action Programmes, which set out specific good agricultural practice measures for farmers to follow in order to reduce nitrate pollution. It requires Member States to apply the Action Programme either throughout their national territory (whole Wales NVZ designation), or to specific areas where farmers have to implement the measures (with farmers in other areas being subject only to other national baseline standards).

The Nitrates Directive requires reviews of both the extent of the NVZs and the effectiveness of the Action Programme every four years. The outcomes of the reviews are to be used to make appropriate amendments (i.e. revise the NVZs and/or the Action Programme measures). A review is currently under way and must be completed by the end of 2012.

The Welsh Government consulted on its review in December 2011. The consultation period closed on 16 March 2012. The consultation sought views on, amongst other matters, whether it was appropriate to continue with the current regime of designation of discrete NVZs, or to adopt a whole territory designation approach.

[2] SI 2001/2555

Details were given of the process which it was intended to follow if the discrete NVZ designation approach were to be adopted. This process consisted of Environment Agency recommendations to the Welsh Government, publication and notification to affected farmers of those recommendations which the Welsh Government was minded to accept, and a 28 day "window" for making of appeals, which would be handled by the Planning Inspectorate.

Following consideration of the consultation responses (see Section 5 below), the Welsh Government decided to continue the existing regime of discrete NVZ designations, and to give effect to its proposals for appeals.

Part 2 of the 2008 Regulations made provision for appeals and for the review of nitrate vulnerable zones, but the appeal provisions relate specifically to the 2008 designations process. It is therefore necessary to replace them, and that is the purpose of the present Regulations. The new provisions carry forward the key features of the previous provisions, but with elaboration of some details and technical changes to procedure which are intended to improve the clarity and effectiveness of the appeal process. The 2008 Regulations provided for designation of NVZs, but for affected persons to be able to apply for a declaration that land should not be designated. However, if that application was successful, the result was not a revocation of the designation but provision that the land should be treated as if it had not been designated. The present regulations make provision for a process of provisional designation (following recommendations by the Environment Agency), for appeals, and for the outcome of the appeals to be binding on the Welsh Government when it makes its final decision.

Regulation 2 revokes and replaces regulation 2 of the 2008 Regulations. Its purpose is to complement the provision made by Regulation 3 and clarify the application of the 2008 Regulations. Parts 3 to 8 of the 2008 Regulations comprise the Action Programme required by the Directive. However, the measures in the programme are only to be applied to land which has been designated as an NVZ. However, the remainder of the 2008 Regulations, as now amended, need to apply in relation to all of Wales. The new Regulation 2 gives effect to this**.**

Regulation 3 revokes and replaces Regulations 7, 8, 9 and 10 of the 2008 Regulations.

The **new Regulation 7**:

a) makes provision to recognise the Environment Agency's role in making recommendations to the Welsh Ministers as part of the review process, and for the Welsh Ministers to publish and notify to affected persons the recommendations they are minded to accept (with or without amendment)

b) retains the current definition and designation of NVZs. It is intended that any amendments made to the current designations following the conclusion of the appeals process will be given effect by a further amendment of the 2008 Regulations in due course.

The **new Regulation 8** provides the right to appeal in terms equivalent to the right to apply for a declaration under the 2008 Regulations. The first of the specified grounds has been expanded to deal with the possibility of cross-border scenarios, so that a farmer who wishes to assert that their land does not drain into polluted water can do so irrespective of whether the polluted water is in Wales or England.

In relation to the second appeal ground, it is recognised that it is in theory possible that a farmer in Wales will wish to challenge the "polluted" status of water in England, and that no provision is made for this. However, the subject matter of an appeal here would be a decision made by the Secretary of State in relation to water in England, and the Welsh Ministers' power to make the Regulations is limited to provision in relation to Wales. In any event, it is considered that this scenario (and its equivalent in relation to polluted water in Wales) is highly unlikely to arise in practice: if it should do so, the Welsh Government will work with Defra to ensure that any necessary further provision is made.

The **new Regulation 9** makes provision for the consideration and determination of appeals by a person appointed by the Welsh Ministers: as previously, it is intended that in practice this will be a Planning Inspectorate Inspector. The provision made about procedure broadly follows that made by the 2008 Regulations. However, to assist transparency and certainty, more detailed provision is made about aspects of the process (e.g. what is to happen if further information is needed or the appellant decides to withdraw their appeal). The provision made is modelled on the established process for planning appeals. In addition, to better reflect the independence of the appeal determination:

a) it is expressly provided that, except as specifically set out on the face of the Regulations, the process is a matter for the appointed person to decide.

b) the provision made by the 2008 Regulations to define the basis of the appointed person's determination has been omitted. This is now left to appointed person's discretion, but the normal public law principles relevant to appeal determinations will of course apply.

The **new Regulation 10** provides simply that the determinations of the appointed person are binding on the Welsh Ministers. The effect is the same as under the 2008 Regulations, namely that at the end of the process of review, the designations of NVZs will have effect in accordance with the appeal decisions.

5. Consultation

As stated above at Section 4, the Welsh Government recently consulted on the Review of Nitrate Vulnerable Zones in Wales. This consultation closed on the 16 March and asked for views on proposals to revise the coverage of Nitrate

Vulnerable Zones and modify the Nitrates Action Programme measures implemented within the Nitrate Vulnerable Zones.

The consultation included a section on the proposed appeals procedure, which would take effect as part of the process of the review if (and only if) the current approach of designating discrete NVZs were to be retained. It was considered unnecessary to ask any specific consultation question on the appeal proposals given that these amounted in essence to a continuation of the 2008 arrangements. However, respondents were asked to state, with reasons, whether they preferred the option of discrete designation (option 1) or the alternative of whole territory designation (option 2). As the appeal proposals formed an integral part of option1 it was open to respondents to comment on them if they wished. However, the only responses received simply endorsed the inclusion of an appeals process.

6. Regulatory Impact Assessment (RIA)

An RIA has not been undertaken as these amendments to Regulations do not create an additional regulatory burden. This is in line with Section 4.2 of the Welsh Ministers' RIA code which states that the Welsh Ministers policy is not to carry out an RIA:

"Where routine technical amendments or factual amendments are required to update regulations etc. that have no major policy impact. "

The Regulations provide only for a process for the making and determination of appeals in relation to the current NVZ review, thus securing continuation of the regime established by the 2008 Regulations. To improve clarity and certainty, that process includes limited technical amendment and elaboration of the provision made for appeals by the 2008 Regulations, but the key features and effect remain as before.

The previous RIA, drafted when the 2008 Regulations were made, assessed both the environmental and economic impact of the action programme measures on affected farmers. It used the total number of affected farmers to assess the impact across the whole of Wales.

Following the completion of the current review and the determination of any appeal, it is envisaged that an RIA will be produced when further amendment regulations are made early next year to give effect to any revisions to the designation of NVZs and to the action programme.

Given the subject matter and effect of the Regulations, it is considered that they do not have any effect relevant to the statutory duties at sections 77 – 79 of the Government of Wales Act 2006, or to the statutory partners (sections 72 – 75).

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

CLA(4)-11-12

CLA142

Adroddiad Drafft y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Teitl: Gorchymyn Iechyd Meddwl (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Eilaidd) (Cymru) 2012

Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu, at ddibenion Rhannau 2 a 3 o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, na chaiff gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol sydd ar gael mewn ardaloedd awdurdod lleol penodol eu hystyried yn wasanaethau iechyd meddwl eilaidd yn yr ardal awdurdod lleol honno.
Mae'r gorchymyn yn darparu ymhellach y caiff gwasanaethau yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon sy'n cyfateb i wasanaethau iechyd meddwl eilaidd a ddarperir yng Nghymru eu hystyried yn wasanaethau iechyd meddwl eilaidd at rai dibenion yn Rhan 3 o'r Mesur.

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu
[Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.]

NEU

[O dan Reol Sefydlog 21.3.(ii) gwahoddir y pwyllgor i ystyried a ddylai'r Cynulliad roi sylw arbennig i'r offeryn hwn gan ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

- Mae Rhan 2 o'r Mesur yn cynnwys gofynion mewn perthynas â chydlynu gofal a chynllunio gofal a thriniaeth. Mae Rhan 3 o'r Mesur yn galluogi oedolion cymwys sydd wedi cael eu rhyddhau o wasanaethau iechyd meddwl eilaidd i atgyfeirio eu hunain yn ôl i wasanaethau eilaidd yn uniongyrchol os ydynt yn credu bod eu hiechyd meddwl yn gwaethygu.
- Mae Erthygl 3 o'r Gorchymyn yn golygu gwahardd unrhyw wasanaeth neu driniaeth a nodwyd ac sydd ar gael fel rhan o wasanaeth iechyd meddwl sylfaenol lleol mewn ardal awdurdod lleol o dan Ran 1 o'r Mesur o ofynion Rhannau 2 a 3 o'r Mesur.

- O ganlyniad, ni fydd angen i ddarparwyr gwasanaeth (byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol) benodi cydlynwyr gofal neu ddarparu cynlluniau gofal a thriniaeth i unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau neu driniaeth a ystyrir yn wasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol mewn ardal awdurdod lleol. Canlyniad arall yw na fydd hawl gan unigolyn sydd wedi cael ei ryddhau o wasanaethau a ddarperir fel rhan o wasanaeth cymorth iechyd sylfaenol lleol i gael ailasesiad.
- Mae'r Gorchymyn yn ymestyn hawl y rhai sy'n gymwys i gael asesiad o dan Ran 3 o'r Mesur i bobl sydd wedi cael gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd (sy'n cyfateb i'r rhai a ddarperir yng Nghymru) yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon.]

Cynghorwyr Cyfreithiol
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

8 Mai 2012

Gorchymyn drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 52(5)(a) o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 i'w gymeradwyo drwy benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2012 Rhif (Cy.)

IECHYD MEDDWL, CYMRU

Gorchymyn Iechyd Meddwl (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Eilaidd) (Cymru) 2012

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

At ddibenion Rhannau 2 a 3 o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 ("y Mesur"), mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn darparu nad yw gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol sy'n cael eu rhoi ar gael mewn ardal awdurdod lleol benodol o dan gynllun i'w hystyried fel gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd yn yr ardal awdurdod lleol honno.

Effaith erthygl 3 yw'r canlynol: nid yw'r gofynion sy'n ymwneud â chydgysylltu a chynllunio gofal a thriniaeth a ddarperir gan Ran 2 o'r Mesur yn gymwys i unigolyn nad yw ond yn derbyn y gwasanaethau neu driniaeth sy'n cael eu rhoi ar gael fel gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol yn yr ardal awdurdod lleol lle y mae preswylfa arferol yr unigolyn hwnnw. Hefyd, ni fydd unigolyn nad yw ond wedi derbyn gwasanaethau o'r fath yn gymwys ar gyfer asesiad o dan Ran 3 o'r Mesur.

Mae erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn yn darparu y bydd gwasanaethau yn Lloegr, yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon, sy'n gyfwerth â gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd a ddarperir yng Nghymru, yn cael eu hystyried yn wasanaethau iechyd meddwl eilaidd at ddibenion penodol yn Rhan 3 o'r Mesur.

Effaith erthygl 4 yw galluogi oedolion sydd wedi derbyn y gwasanaethau hynny yn Lloegr, yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon, ond sydd bellach yn preswylio yng Nghymru, i fod yn gymwys ar gyfer asesiad o dan Ran 3 o'r Mesur, ar yr amod eu bod yn

bodloni'r meini prawf ar gyfer yr hawl a ddarperir yn adran 22 o'r Mesur.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar wneud Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, paratowyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r buddiannau sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi gan y Tîm Deddfwriaeth Iechyd Meddwl, Yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Gorchymyn drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 52(5)(a) o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 i'w gymeradwyo drwy benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2012 Rhif (Cy.)

IECHYD MEDDWL, CYMRU

Gorchymyn Iechyd Meddwl (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Eilaidd) (Cymru) 2012

Gwnaed	*2012*
Yn dod i rym	*6 Mehefin 2012*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 49(4) a 52(2) o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010(**1**).

Gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 52(5)(a) o'r Mesur, a'i gymeradwyo gan benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Iechyd Meddwl (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Eilaidd) (Cymru) 2012, a daw i rym ar 6 Mehefin 2012.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

